Estyn

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Cas-gwent

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Cas-gwent yn ymdrechu i ysbrydoli dysgu ‘i bawb, am oes’ mewn amgylchedd cynhwysol a gofalgar lle rhoddir blaenoriaeth uchel i les pob disgybl. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo’n hapus a diogel ac yn falch o fod yn aelod o gymuned yr ysgol. Mae llais y disgyblion yn gryfder nodedig, ac yn ffactor dylanwadol yn yr ymdeimlad hwn o berthyn.

Mae gwerthoedd craidd yr ysgol, sef bod yn gadarnhaol, uchelgais, chwilfrydedd, tegwch a dyfalbarhad, yn sail i bob agwedd ar ei gwaith. Caiff anghenion cymdeithasol ac emosiynol pob un o’r disgyblion, gan gynnwys y rhai mwyaf bregus, eu diwallu’n dda ac mae hyn yn eu galluogi i ffynnu.

Mewn llawer o wersi, mae perthnasoedd parchus a phwrpasol rhwng athrawon a disgyblion, ynghyd ag addysgu o ansawdd da, yn sicrhau bod disgyblion o bob gallu yn gwneud cynnydd cadarn, o leiaf, wrth ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a’u medrau. Trwy gydol cyfnodau allweddol 3 a 4, caiff anghenion a diddordebau pob un o’r disgyblion eu diwallu’n dda. Fodd bynnag, mae cwricwlwm y chweched dosbarth yn gyfyngedig ar hyn o bryd.

Mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac yn parhau i lywio’r ysgol trwy gyfnodau heriol. Mae hyn wedi helpu’r ysgol i wneud cynnydd sylweddol o ran mynd i’r afael â blaenoriaethau cenedlaethol, ac yn fwyaf nodedig, presenoldeb a hyrwyddo’r Gymraeg. Mae arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn dda ond nid ydynt bob amser yn gwerthuso effaith yr addysgu ar ddysgu’r disgyblion yn ddigon manwl. Ar hyn o bryd, mae’r ysgol yn parhau i fod mewn diffyg ariannol sylweddol ac mae’n gweithio’n agos gyda’r awdurdod lleol i fynd i’r afael â hyn.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Gweithio gyda'r awdurdod lleol i sicrhau rheolaeth ariannol gadarn

A2 Mireinio prosesau hunanwerthuso fel bod arweinwyr yn canolbwyntio'n gadarn ar effaith yr addysgu ar gynnydd disgyblion ac yn cynllunio'n fanwl gywir ar gyfer gwella

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/05/2025